# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol. [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mercher 11 Ionawr 2006]

**Dydd Mawrth 17 Ionawr a dydd Mercher 18 Ionawr 2006**

**Dydd Mawrth 24 Ionawr a dydd Mercher 25 Ionawr 2006**

**Dydd Mawrth 31 Ionawr a dydd Mercher 1 Chwefror 2006**

**Dydd Mawrth 17 Ionawr 2005**

- **Motion(s) to elect members to Standing Committees ( 1 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i drafod y 3 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (60 munud)**
    - **Motion to approve the Local Government Finance Report (No.1) for the financial year 2006-07.**
    - **· Motion to approve the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2004-05 Amending Report.**
    - **· Motion to approve the Local Government Finance Report (Wales) (Councils) 2005-06 Amending Report.**
- **Dadl am Fesur Llywodraeth Cymru (90 munud)**

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2005**

- **Motion to establish the Committee on the Government of Wales Bill (1 munud)**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**
  - Ø **Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006**

  Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd 1831/2003, sy'n cyflwyno dulliau newydd o reoli mewn perthynas ag awdurdodi a defnyddio ychwanegion bwyd mewn maeth anifeiliaid; ac mae'n trosi Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/116, sy'n ychwanegu cynnyrch bioprotein newydd yn deillio o furum at y rhestr awdurdodedig o gynhyrchion o'r fath yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cydgrynhoi'r amryfal ddiwygiadau i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid 2000.

- **Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (30 munud)**

  - **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru (Diddymu) 2006**

    Effaith y Gorchymyn hwn yw gweithredu rhan gyntaf y broses i newid cyfansoddiad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru a'i droi'n banel i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddiddymu'r Bwrdd fel corff o dan Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 a diddymu swyddogaethau statudol y Cyngor o dan y ddeddf honno a phob deddf arall.

  - **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Bwrdd Henebion Cymru (Diddymu) 2006**

    Effaith y Gorchymyn hwn yw gweithredu rhan gyntaf y broses i newid cyfansoddiad Bwrdd Henebion Cymru a'i droi'n banel i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddiddymu'r Bwrdd fel corff o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a diddymu swyddogaethau statudol y Bwrdd o dan y ddeddf honno a phob deddf arall.

- **Motion to approve The Older Cattle (Disp[osal) (Wales) Regulations 2006 under Standing Order 24.27 (iv) (15 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 24 Ionawr 2006**

- **Motion to elect a planning decision committee (1 min)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

  Ø **Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb Heb ei Awdurdodi) (Cymru) (Diwygio) 2006**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb ei Awdurdodi) (Cymru) 1999. Maent yn gwella'r ffordd y mae targedau presenoldeb ar lefel yr ysgol yn cael eu defnyddio, drwy ei gwneud yn fwy cywir a chyson, a thrwy ei hehangu. Bydd y diwygiadau yn cyflawni hyn drwy:

  - ei gwneud yn ofynnol i seilio targedau presenoldeb ar lefel yr ysgol ar gyfanswm yr absenoldebau;
  - ymestyn y gofyniad i bennu targedau presenoldeb ar lefel yr ysgol i ysgolion cynradd a gynhelir;
  - ei gwneud yn ofynnol i dargedau presenoldeb ar lefel yr ysgol gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Addysg Lleol (AALl) er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ffordd y maent yn cael eu defnyddio a'u rhoi ar waith; a
  - chaniatáu i'r AALlau ofyn i gyrff llywodraethu ysgolion ddiwygio'r targedau os nad ydynt o'r farn fod y targedau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn briodol

  Ø **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2006**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mewn perthynas â nifer, maint a

lleoliad soseri lloeren ac antenâu eraill yng Nghymru. Prif ddiben y Gorchymyn yw dadreoleiddio, gan ddileu'r ffordd yr eir ati ar hyn o bryd i wahaniaethu rhwng y mathau o antenâu (e.e. antenâu soseri lloeren ac antenâu rhwyllog) (mae radio rhwyllog yn dechnoleg di-wifr sefydlog lle mae antena pob un sy'n tanysgrifio yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith dosbarthu ar gyfer tanysgrifwyr eraill) a llacio'r Rheoliadau yn Rhannau 1.H a 25 o Atodlen 2 i Orchymyn 1995, sy'n ymwneud â hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer yr antenâu hyn, gan gyfyngu ar yr un pryd ar yr effaith y maent yn ei chael ar yr amgylchedd.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr eiddo domestig yng Nghymru gymryd 'camau rhesymol' i sicrhau mai dim ond i "berson awdurdodedig" neu i berson "at ddibenion cludo a awdurdodwyd" y bydd yn trosglwyddo gwastraff cartref sy'n cael ei gynhyrchu ar ei eiddo.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07, a byddant yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr cymwys. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r benthyciadau a'r grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, ac maent yn gwahaniaethu rhwng y myfyrwyr hynny a ddechreuodd ar eu cyrsiau cyn i swyddogaethau gael eu datganoli i'r Cynulliad (myfyrwyr yr hen system) a'r rheini a fydd yn dechrau ar eu cyrsiau ym mis Medi 2006 (myfyrwyr y sytem newydd).

- **Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol (45 munud)**

- **Dadl am y cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 31 (NNDM 2736), a gyflwynwyd gan Janet Davies AC (45 munud)**

Mae'r cynnig hwn yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi, mewn egwyddor, is-ddeddfwriaeth:
a) I'w gwneud yn ofynnol i gyflwyno datganiad rhagofalus am yr effeithiau posibl a gwirioneddol y gallai pob datblygiad sy'n cynnwys cyfarpar cyfathrebu electronig eu cael ar iechyd.
b) I ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer unrhyw ddatblygiadau gan weithredwyr systemau codau cyfathrebu electronig.
c) I ddileu'r hawliau datblygu a ganiateir sydd gan ymgymerwyr rheilffyrdd i ddatblygu cyfarpar cyfathrebu electronig.

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2006**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Dadl o dan Reol Sefydlog 6.6. am faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd (60 munud)**

- **Dadl am Adolygiad Polisi gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Dawns yng Nghymru (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 31 Ionawr 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus : Adeilad Newydd y Cynulliad (30 munud)**

- **Slot reserved for subordinate legislation (60 munud)**

- **Dadl am y 6ed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb (60 munud)**

**Dydd Mercher 1 Chwefror 2006**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol**

**Oes (30 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**
- **Dadl am Gymunedau yn Gyntaf (60 munud)**
- **Debate on Arts Policy (60 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**